# AMSER I DRETH: GWEITHDY CHWECHED DOSBARTH AR GYFIAWNDER TRETH

POVERTY

## Nodiadau athrawon

Gweithdy ar gyfer myfyrwyr 16 a hŷn i godi ymwybyddiaeth o'r ffordd mae treth yn helpu llywodraethau i ddarparu gwasanaethau hanfodol, i archwilio canlyniadau economaidd a chymdeithasol osgoi trethi a deall ymgyrch cyfiawnder treth Cymorth Cristnogol

## Cynllun y Gweithdy

### Amcanion

- Dyfnhau dealltwriaeth o'r hyn mae'r gair 'tlodi' yn ei olygu
- Deall oblygiadau treth i iechyd a lles dinasyddion
- Galluogi'r myfyrwyr i weithredu i roi terfyn ar osgoi treth.

### Deilliannau dysgu

- Bydd myfyrwyr wedi ystyried yr elfennau, perthnasol a dibwys, sy'n angenrheidiol ar gyfer bywyd hapus, iach a llawn.
- Bydd myfyrwyr wedi archwilio effaith tlodi ar bobl yn byw yn Guatemala a Zambia.
- Bydd myfyrwyr yn deall sut mae anghenion pobl yn y DU, gan gynnwys y mwyaf bregus, yn cael eu diwallu trwy ystod eang o wasanaethau sylfaenol a ddarperir gan y llywodraeth.
- Bydd myfyrwyr wedi ymchwilio i wariant cyhoeddus yn y DU: sut mae arian yn cael ei wario ac o ble mae'n dod.
- Bydd y myfyrwyr wedi cymharu, a gwrthgyferbynnu'r ddarpariaeth o wasanaethau sylfaenol mewn gwledydd lle mae lefelau treth gwahanol ac wedi ystyried effaith treth ar dlodi.
- Bydd myfyrwyr wedi archwilio sut a pham mae cwmnïau'n osgoi talu trethi a'r effeithiau cymdeithasol o ganlyniad i hyn.
- Bydd myfyrwyr wedi archwilio'r potensial i leihau tlodi petai reolau trethi rhyngwladol yn cael eu newid i ddelio ag osgoi talu trethi.

## Paratoi/adnoddau

- Pêl
- Llungopïau o'r taflenni gwaith a'r astudiaethau achos, ar gael o christianaid.org.uk/learn

## Cynnal y gweithdy

### Cyflwyniad [15 munud]

Gofynnwch i'r myfyrwyr sefyll mewn cylch a thaflu'r bêl o'r naill i'r llall.  Bob tro bydd rhywun yn dal y bêl dylent weiddi gair y maent yn ei gysylltu â thlodi.

Rhannwch y myfyrwyr yn bedwar grŵp a heriwch bob grŵp i ysgrifennu un frawddeg sy'n diffinio tlodi o fewn dau funud.

Gofynnwch i gynrychiolydd o bob grŵp i ddarllen eu diffiniadau.

- **A yw eu diffiniadau'n trafod effeithiau cymdeithasol yn ogystal ag effeithiau materol tlodi?**
- **A ydynt wedi ystyried achosion tlodi'n ogystal â'i effeithiau?**

Darllenwch y diffiniad canlynol o dlodi gan Cymorth Cristnogol:

*Cred Cymorth Cristnogol fod tlodi'n fwy na bod heb ddigon o arian, mae'n golygu bod heb y cyfle i reoli'r pethau angenrheidiol yn eich bywyd eich hun ac ym mywyd eich cymuned.*

*Cred Cymorth Cristnogol fod diffyg grym wrth wraidd tlodi; er enghraifft, y grym i godi llais ac i gael eich clywed, neu i wybod eich hawliau a mynnu eu cael; y grym i fwynhau gwasanaethau sylfaenol neu i gael cyfran deg o adnoddau'r byd; y grym nid jyst i oroesi ond i fod yn sicr o fywyd llewyrchus.*

A yw'r myfyrwyr yn cytuno â'r diffiniad hwn?

Nawr darllenwch y dyfyniad isod gan Humphrey Oduor, cadeirydd grŵp ieuenctid Kiambiu, slym Kiambiu, Kenya:

*'Tlodi yw pen draw'r pethau eraill sydd heb gael sylw. Ar goeden broblemau, tlodi yw'r canlyniad, tlodi yw'r ffrwyth. Petaech chi [ddim yn mynd i'r ysgol], pa fath o fywyd*



© Cymorth Cristnogol 2012

*fyddech yn ei ddisgwyl? Yn nhermau gwaith ni fedrwch gael swydd dda os nad ydych wedi cael addysg. Rydych yn debyg o gael llawer o blant nad ydych yn gallu eu cynnal. Felly bydd eich epil yn broblem i genedlaethau'r dyfodol. Byddant yn etifeddu tlodi. Dyna'r ffrwyth. Fedrwn ni ddim delio gyda thlodi heb ddelio â'i achosion sylfaenol.'*

Eglurwch fod y gweithdy hwn am archwilio rhai o achosion sylfaenol tlodi ac edrych ar sut y gellid delio â hwy trwy newid sustemau ariannol rhyngwladol.

## Gweithgaredd 1

**Bywydau hapus ac iach** [10 munud]
Rhowch un copi o daflen waith 1 i bob grŵp.

Gofynnwch i bob grŵp ddewis enw, oed, rhyw a gwlad i'r person yn eu llun.

Yna gofynnwch i'r grwpiau i gyfnewid eu taflen gyda grŵp arall ac i ddarlunio'r pethau sylfaenol a hanfodol sydd eu hangen ar y person yn y llun i fyw bywyd hapus, iach a llawn.

- **Oes yna bethau sy'n angenrheidiol ar gyfer bywyd llawn sy'n anodd eu darlunio? Beth ydynt?**

Gallai'r enghreifftiau gynnwys: rhyddid, urddas, hawliau, cyfreithiau, heddwch, mynegiant creadigol.

Gofynnwch i'r grwpiau ychwanegu unrhyw anghenion 'anweledig' eraill yn y swigen meddyliau.

- **Oes gan bawb yr un anghenion, beth bynnag eu hoed a'u rhyw?**

  Atgoffwch y myfyrwyr y gall fod gan wragedd a dynion anghenion cymdeithasol ac iechyd arbennig. Er enghraifft, gall fod gan wragedd anghenion penodol am wybodaeth cynllunio teulu ac iechyd mamolaeth.

- **Beth am blant neu bobl hŷn - beth allai eu hanghenion penodol hwy fod?**

Gofynnwch i'r grwpiau i ychwanegu unrhyw anghenion eraill, gan ystyried oed a rhyw'r person yn y llun.

- **A yw'n gwneud gwahaniaeth o ba wlad mae'r person yn dod, neu a oes gan bawb yr un anghenion sylfaenol ble bynnag maent yn byw?**

  Atgoffwch y myfyrwyr ein bod yn trafod anghenion sylfaenol a hanfodol ac, wrth gwrs, gall pobl mewn rhai gwledydd fod heb anghenion sylfaenol a gymerir yn ganiataol mewn gwledydd eraill.

  Gofynnwch i'r grwpiau sydd wedi cymryd rhai anghenion sylfaenol yn ganiataol (er enghraifft, mynediad i ddŵr glân, addysg, rhyddid gwleidyddol) i'w hychwanegu.

## Gweithgaredd 2

**Astudiaethau achos** [15 munud]
Rhowch daflen astudiaeth achos wahanol i bob grŵp (cynhwysir pedair astudiaeth achos gyda'r taflenni gwaith, sydd i'w cael yn christianaid.org.uk/learn).

Gofynnwch iddynt ddarllen eu hastudiaeth achos ac i ateb y cwestiynau yn eu grwpiau. Byddant wedyn yn cyflwyno eu hastudiaeth achos i'r grwpiau eraill, gan egluro beth yw anghenion pob person, i ba raddau mae'r anghenion hyn wedi cael eu cwrdd, a beth yw'r her sy'n dal i wynebu'r unigolion.

Wrth iddynt gyflwyno eu hastudiaethau achos, ysgrifennwch restr o'r anghenion y maent yn eu nodi ar y bwrdd.

## Gweithgaredd 3

**Gwasanaethau hanfodol** [10 munud]
Gofynnwch i'r myfyrwyr i edrych ar eich rhestr o anghenion hanfodol. Gofynnwch iddynt awgrymu unrhyw rai eraill a drafodwyd yn ystod y sesiwn ac maen nhw'n eu hystyried yn rhai pwysig iawn.


© Cymorth Cristnogol 2012

Rhowch rôl wahanol i bob un o'r pedwar grŵp:

- Teulu a ffrindiau
- Llywodraeth leol
- Llywodraeth ganolog
- Cyrff anllywodraethol (sy'n cynnwys grwpiau cymunedol, grwpiau gwirfoddol ac elusennau)

Gofynnwch i'r myfyrwyr ystyried pa rai o'r anghenion sylfaenol a nodwyd sy'n gyfrifoldeb i'w grŵp hwy.

- **Yn y DU, pa wasanaethau hanfodol sy'n cwrdd ag anghenion y boblogaeth, a phwy sy'n eu darparu?**

## Gweithgaredd 4

**Gwario, gwario, gwario - gwariant llywodraeth ganolog yn y DU** [15 munud]
Rhowch gopi o daflen waith 2 i bob grŵp.

- **Dyfalwch beth oedd cyfanswm gwariant Llywodraeth y DU yn ystod y flwyddyn ariannol 2010/11?**

Yr ateb yw tua £691bn. Gallech roi gwobr i'r person fydd â'r ateb agosaf.

- **Sut ydych chi'n meddwl y rhannwyd y gyllideb honno rhwng adrannau gwahanol y llywodraeth?**

Gofynnwch i'r grwpiau i neilltuo gwariant amcan i'r pum adran o'r llywodraeth a ddangosir mewn oren ar eu taflen waith. Dwedwch wrthynt beth yw'r cyfansymiau cywir a gofynnwch iddynt eu hysgrifennu ar eu taflen:

- Adran Iechyd: £106bn
- Adran Addysg: £58bn
- Y Weinyddiaeth Amddiffyn: £39bn
- Adran dros Ddatblygiad Rhyngwladol: £8bn
- Adran Ynni a Newid Hinsawdd: £8bn
- **Nawr, y cwestiwn miliwn o ddoleri (neu'n hytrach, y cwestiwn 691 biliwn o bunnoedd): O ble ddaeth yr arian yma?**

Os na all y myfyrwyr ateb y cwestiwn, eglurwch fod y llywodraeth yn codi arian drwy drethi (os yw cyllideb y llywodraeth yn fwy na'r cyfanswm a godir drwy drethiant mewn blwyddyn rhaid iddynt fenthyg arian er mwyn cwrdd â'r gwahaniaeth).

Mae'r mwyafrif o bobl a chwmnïau sy'n gweithio, yn ennill neu'n gwneud arian yn y DU, yn talu treth ar eu hincwm. Hyd yn oed os nad ydych yn gweithio, rydych yn talu treth pob tro y prynwch unrhyw beth - mae TAW (treth ar werth) yn cael ei ychwanegu i gost y rhan fwyaf o'r nwyddau a brynwn. Mae talu treth yn ffordd o sicrhau fod anghenion sylfaenol pob person yn cael eu diwallu, beth bynnag eu hincwm. A phan fydd anghenion sylfaenol pawb yn cael eu cwrdd, mae cymdeithas yn tueddu i wneud yn well.

## Gweithgaredd 5

**Cysylltwch y ffeithiau!** [10 munud]
Eglurwch fod nifer o bobl sy'n byw mewn tlodi'n byw mewn sefyllfaoedd lle nad yw eu hanghenion sylfaenol yn cael eu diwallu a lle nad ydynt yn cael eu cynnal gan y strwythurau gofal iechyd, addysg a gofal cymdeithasol a ddarperir gan lywodraethau gwledydd mwy datblygedig.

Mae nifer o resymau pam nad yw llywodraethau'n gallu cwrdd ag anghenion eu pobl. Gofynnwch i'r myfyrwyr awgrymu ambell reswm (gallant gynnwys ffactorau hanesyddol, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol). Eglurwch fod y gwledydd tlotaf, yn gyffredinol, yn cael anhawster i godi incwm trethi o'r boblogaeth gyffredinol, oherwydd fod lefelau incwm y bobl yn tueddu bod yn llai.

Dosbarthwch daflen waith 3. Gofynnwch i'r grwpiau gysylltu'r ffeithiau gyda'r gwledydd



© Cymorth Cristnogol 2012

gwahanol drwy dynnu llinell rhwng pob ffaith a'r wlad maen nhw'n credu sy'n cyfateb, neu fe allant dorri allan y ffeithiau a'u trefnu nhw fesul gwlad.

Gellwch fynd trwy'r atebion gyda'r grwpiau.

**Zambia:**
Yn y blynyddoedd diwethaf mae'r wlad hon wedi mwynhau cyfnod parhaus o dwf economaidd.

Mae gan y wlad hon adnoddau naturiol helaeth iawn; hi yw'r seithfed mwyaf drwy'r byd yn cynhyrchu copr ac mae hefyd yn gyfoethog mewn cobalt (y mineral a ddefnyddir i wneud ffonau symudol).

Mae 45 y cant o holl bobl y wlad hon ddim yn cael digon o faeth.[1]

Mae graddfeydd llythrennedd ymhlith oedolion y wlad hon yn 70 y cant.[2]

49 mlynedd yw disgwyliad bywyd yn y wlad hon.

**Guatemala:**
Mae Guatemala yn cael ei chyfrif yn wlad incwm-ganolig.

Hon yw'r bumed brif allforiwr o goffi a siwgr yn y byd.

Mae bron i 50 y cant o blant yn y wlad hon wedi eu heffeithio'n ddifrifol gan ddiffyg maeth dwys.

Mae graddfeydd llythrennedd ymhlith oedolion y wlad hon yn 74 y cant.[3]

70 mlynedd yw disgwyliad bywyd yn y wlad hon.

**Y DU:**
Bu economi'r wlad hon mewn dirwasgiad ddwywaith rhwng 2008 a 2012.

Prif allforion y wlad hon yw tanwydd mwynau a rhannau ar gyfer adweithyddion niwclear.

Tair miliwn o bobl yn y wlad hon, llai na 5 y cant o'r boblogaeth gyfan, sy'n dioddef o ddiffyg maeth.[4]

Mae tua 99 y cant o oedolion y wlad hon yn llythrennog.[5]

79 mlynedd yw disgwyliad bywyd yn y wlad hon.

- **Beth oedd yn synnu'r myfyrwyr am y ffeithiau hyn?**
- **Pam fod cymaint o bobl yn Guatemala a Zambia'n byw mewn tlodi, pan fod Guatemala yn wlad incwm-ganolig a Zambia mor gyfoethog mewn adnoddau naturiol?**
- **Beth allai'r llywodraethau wneud i gefnogi anghenion y bobl dlotaf?**
- **Sut allan nhw dalu am hyn?**

Dwedwch wrth y myfyrwyr yr amcangyfrifir bod y gwledydd hyn yn colli swm enfawr o arian oherwydd osgoi talu trethi:

1 fao.org

2 undp.org

3 undp.org

4 http://bbc.co.uk/news/health-14761421

5 state.gov/rpa/ei/bgn/3846.htm



© Cymorth Cristnogol 2012

Mae tlodi'n sarhau dynoliaeth. Mae'n rheibio pobl o urddas, rhyddid, gobaith a'r gallu i reoli eu bywydau eu hunain.

Mae gan Cymorth Cristnogol weledigaeth – diwedd ar dlodi – a chredwn y gellir gwireddu'r weledigaeth. Ymunwch â ni.

**Caerdydd** Blwch Post 6055, CF15 5AA
**Bangor** 106 Stryd Fawr, LL57 1NS
**Caerfyrddin** 75 Heol Dŵr, SA31 1PZ
**Website** christianaid.org.uk

Colled amcan Zambia yw £643 miliwn bob blwyddyn.

Colled amcan Guatemala yw £51 miliwn bob blwyddyn.

Colled amcan y DU yw £4 biliwn bob blwyddyn.[6]

Eglurwch fod cymorth yn un dull o fuddsoddi mewn gwasanaethau hanfodol. Ond cred Cymorth Cristnogol bod sustemau treth effeithiol yn ddull llawer gwell. Gofynnwch i'r myfyrwyr i awgrymu rhesymau pam y gallai treth fod yn well na chymorth.

**Mae'r rhesymau'n cynnwys:**

- Mae treth yn grymuso dinasyddiaeth ddemocrataidd ac atebolrwydd oherwydd bod dinasyddion sy'n talu trethi'n fwy tebygol o ddal eu llywodraeth yn atebol am sut y maent yn gwario'u harian.
- Mae cymorth weithiau'n dod gydag amodau a osodir gan y rhoddwr sy'n tanseilio democratiaeth a ddim yn helpu datblygiad economaidd; llywodraethau'n atebol i noddwyr tramor yn hytrach na'u pobl eu hunain
- Mae dibyniaeth ar gymorth yn cario stigma; mae treth yn ffordd fwy cynaliadwy, teg ac urddasol o sicrhau incwm tymor hir
- Mae llawer o gwmnïau'n gweithio dramor, ond mae rhai'n osgoi talu trethi yn y gwledydd lle maent yn gweithio. Mae hyn yn amddifadu gwledydd o incwm y maen nhw eu hangen yn fawr, gan fod eu hadnoddau naturiol yn cael eu hysbeilio heb iddynt gael cydnabyddiaeth deg amdanynt.

## Gweithgaredd 6

**Mae rheolau treth yn bananas** (10 munud)

Gwyliwch y ffilm *The Big Tax Return* ar christianaid.org.uk/ActNow/trace-the-tax/background.aspx

Rhannwch daflen waith 4 gyda'r grwpiau

- **Beth sy'n annheg am osgoi talu trethi?**
- **Sut fedrai rheolau treth tecach drawsnewid bywydau i bobl yn Guatemala a Zambia, gwledydd sy'n gyfoethog o fwynau naturiol ac sy'n allforio nwyddau?**

## Diweddglo

**Myfyrdod i gloi** (5 munud)

Tynnwch lun coeden ar y bwrdd gwyn. Ewch yn ôl at eiriau Humphrey Oduor, o Kenya:

*'Tlodi yw pen draw'r pethau eraill sydd heb gael sylw. Ar goeden broblemau, tlodi yw'r canlyniad, tlodi yw'r ffrwyth.'*

Os mai tlodi yw'r ffrwyth, pa faterion fyddai myfyrwyr yn eu rhoi ar y goeden broblemau?

6 tuc.org.uk/economy/tuc-16043-f0.cfm



© Cymorth Cristnogol 2012